Eisteddfod Gyd–Enwadol Pontargothi a'r Cylch

Cynhaliwyd Eisteddfod Gyd-Enwadol Pontargothi a'r Cylch yn Neuadd Goffa Pontargothi ar 24 Mawrth. Cafwyd pump awr o gystadlu brwd yn yr adrannau cerdd a llefaru gyda ymgeisiau o safon uchel a niferus iawn yn yr adran lenyddol. Hyfrydwch oedd gweld safon rhai o'r cyflwyniadau yn yr adran gelf a choginio. Er y niferoedd isel a fu'n cystadlu yn yr adran oed uwchradd, cafwyd eisteddfod hwyliog yn llawn cystadlu brwd.

Daeth cryn lwyddiant i gylch Felingwm gyda Chôr y Plant; y Côr Ardal a Pharti Unsain y Plant a'r Merched yn cyrraedd y brig. Enillydd cystadleuaeth y canu emyn oedd Carys Richards gyda Donna Howard yn ennill yr her unawd. Braf oedd gweld amryw o wahanol dalentau yn y cystadlaethau '*Sgen Ti Dalent?* gyda Chriw Nantgaredig yn fuddugol yn yr adran hŷn gyda'r gân actol '*Coroni'r Brenin'*.

Yn cadw trefn ar yr holl gystadleuwyr ac yn arwain trwy'r eisteddfod roedd Steffan Griffiths, Eleri James a'r Parchedigion Emyr Gwyn Evans ac Ian Sims.

Sioned Page-Jones, Blaenycoed oedd y beirniad cerdd a'r Parchg. Beti-Wyn James, Abergwili oedd yn beirniadu'r llefaru a'r llenyddiaeth. Tasg Catrin Anna Edwards, Llanegwad oedd didoli'r gwaith llaw, llaw ysgrif, arlunio a choginio. Y cyfeilyddion oedd Geraint Rees, *Upland Arms* a Sylvia Thomas, Nantgaredig. Swyddogion y pwyllgor eisteddfod eleni oedd Elonwy Phillips (Cadeirydd), Carys Richards (Ysgrifennydd) a Heulwen Davies (Trysorydd). Y llywydd oedd un o'r ffyddloniaid, y Cynghorydd Sir lleol, Mansel Charles, Llanegwad. Cafwyd ganddo araith bwrpasol yn cyfeirio at ffyddloniaid yr Eisteddfod, a her i sicrhau dyfodol yr Eisteddfod trwy lunio rhaglen addas ar gyfer yr oes fodern. Diolchwyd iddo am ei araith heriol, ac am gyfraniad ariannol hael tuag at gronfa'r Eisteddfod.
Diolch i bawb a oedd ynghlwm â'r eisteddfod i'w gwneud hi'n ŵyl arbennig eleni eto wedi egwyl o bedair blynedd oherwydd problemau Covid.

Dyma'r **canlyniadau**'n gyflawn:

Canu O Dan 7 oed: 1 Dion Jones 2 Henry Knight

Canu 7 – 11 oed: 1 Elan James 2 Lowri Jones 3 Rosa Lisle a Mared Jones

Canu Dros 18 oed: 1 Donna Howard 2 Carys Richards 3 Emyr Gwyn Evans

Unsain i 3 neu 4 o dan 18oed : 1 Betsan, Elan a Carys

Unsain dros 18oed : 1 Merched Felingwm.

Côr y Plant: Côr Plant Felingwm.

Cystadleuaeth offerynnol (Cynradd): 1 Elan James 2 Harri Lisle 3 Alys Tremlett

Cystadleuaeth offerynnol (Uwchradd): 1 Elsie Blakeman

Deuawd Agored: Donna Howard a Sian Lisle

'SGEN TI DALENT?' dan 18 oed : 1 Côr Plant Felingwm.

'SGEN TI DALENT?' dros 18 oed : 1 Cân Actol Nantgaredig.

Côr yr Ardal – Dros 18 oed : 1 Côr Felingwm

Llefaru 7 – 11 oed : 1 Elan James

Darllen Emyn (Cynradd): 1 Elan James 2 Betsan Jones 3 Harri Lisle a Carys Jones

Araith ar y Pryd: 1 Gwenann Thomas 2 John James a Jac Davies

Ysgrifennu Llythyr Caru : 1 Elonwy Phillips a Moira Blakeman

Brawddeg ar y gair 'APOSTOL': 1 Dai Jenkins 2 Lloyd Thomas 3 Elonwy Phillips

Brysneges ar y lythyren C: 1 Myfi Jones 2 Elonwy Phillips 3 Richard Roberts

Cyfansoddi Emyn: 1 Myfi Jones 2, 3 Elonwy Phillips

Telyneg Ysgafn: 1 Moira Blakeman 2, 3 Elonwy Phillips

Limrig: 1 Elonwy Phillips 2 Myfi Jones 3 Moira Blakeman

Cyfansoddi penillion topical: 1 Elonwy Phillips / Emyr Gwyn Evans 2 Aelodau Capel Nantgaredig

Llawysgrifen 7 – 11 oed: 1, 2 Elan James

Llawysgrifen Dros 18 oed: 1, 2, 3 Heulwen Davies

Arlunio 7 – 11 oed: 1 Elan James 2 Lowri Jones 3 Alice Tremlett

Arlunio Dan 18 oed: 1, 2 Gwyn James

Arlunio Dan 18 oed: 1, 2, 3 Carol Jones

Ffotograffiaeth: 1, 2, Gwenann Thomas 3 Eleri Peach

Gwaith Llaw o Dan 7 oed: 1 Morgan Jones

Gwaith Llaw 7 - 11 oed: 1 Elan James 2 Alys Tremlett

Gwaith Llaw Dan 18 oed: 1 Gwyn James

Gwaith Llaw Dros 18 oed: 1 Carol Jones 2, 3 Sylvia Thomas

Coginio (Cynradd): 1, 2, 3 Elan James

Coginio Dros 18 oed: 1 Jac Davies 2 Steffan Wyn James 3 Elonwy Phillips